# Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHYFATHREBU
# TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – BLAENORIAETHAU'R PORTFFOLIO

1. Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am y blaenoriaethau ym mhortffolio'r Economi a Seilwaith sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys diwylliant, creadigrwydd a'r celfyddydau, marchnata a hyrwyddo, a'r amgylchedd hanesyddol.

## Yr Amgylchedd Hanesyddol

2. Mae'n hasedau hanesyddol cenedlaethol yn dreftadaeth werthfawr ac unigryw, ond mae iddynt gryn botensial economaidd hefyd. Mae'r sector yn cynnal bron 40,000 o swyddi, yn creu £749 miliwn o werth ychwanegol gros (GVA) ac mae hefyd yn hanfodol bwysig i dwristiaeth.

3. Adeiladau a henebion hanesyddol sy'n rhoi cymeriad i'n cymunedau ac maent yn haeddu cael eu gwerthfawrogi a'u gwarchod. Mae cyflwr ein hasedau hanesyddol dynodedig yn arwydd o'n llesiant diwylliannol, ac mae adeiladau hanesyddol sy'n cael cryn ddefnydd a gofal yn cyfrannu at iechyd ein cymunedau. Ar y llaw arall, mae adeiladau sydd mewn perygl am eu bod yn cael eu hesgeuluso neu am eu bod mewn cyflwr gwael yn asedau sy'n cael eu gwastraffu. Maent yn cael effaith andwyol ar eu hamgylchedd, a gallant fod yn niweidiol i ffyniant cymdeithasol ac economaidd.

4. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016, yn rhoi deddfwriaeth newydd flaengar i Gymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Bydd y Ddeddf yn helpu i sicrhau bod adeiladau rhestredig yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy, a'u cadw. Bydd yn golygu hefyd y bydd modd cymryd camau priodol pan fydd adeilad yn dechrau mynd â'i ben iddo am ei fod yn cael ei esgeuluso. Mae cyfres o ganllawiau'n wrthi'n cael eu paratoi i ategu'r Ddeddf, a bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati, drwy Cadw, i gyhoeddi canllawiau penodol ar reoli adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl. Bwriedir ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r canllawiau hynny yn ddiweddarach eleni.

## *Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd*

5. Y tîm Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisïau ar amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ar gyfer y sefydliadau cenedlaethol a lleol hynny sy'n gwarchod diwylliant a threftadaeth Cymru ac yn sicrhau eu bod ar gael i bobl eu mwynhau. Mae'r tîm yn cyfrannu at amryw o'r mentrau sydd gan Lywodraeth Cymru. Ymhlith y mentrau hynny y mae mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol drwy raglen Cyfuno, helpu pobl o bob oed i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol, gwella llythrennedd ac ymgysylltiad drwy fentrau megis *Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell* a *Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd,* hyrwyddo gwirfoddoli a phrentisiaethau, a galluogi pobl i gael gafael ar wybodaeth drwy'n rhwydwaith o lyfrgelloedd cyhoeddus.

6. Y flaenoriaeth dros y pum mlynedd nesaf yw bwrw ymlaen ag agenda ar gyfer gweddnewid er mwyn sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau o ansawdd uchel mewn hinsawdd ariannol sy'n parhau'n anodd. Bwriedir mynd ati hefyd i helpu i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, yn benodol felly ym maes gwasanaethau digidol, er mwyn diwallu disgwyliadau defnyddwyr am fwy a mwy o ddarpariaeth a gwasanaethau ar-lein. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru, yn enwedig ym maes ymgysylltu â'r gymuned, a

byddwn yn disgwyl i'r sector, yn genedlaethol ac yn lleol, chwarae'i ran ym Mlwyddyn Chwedloniaeth yn 2017 ac mewn ymgyrchoedd yn y dyfodol.

7. Mae cyfres o adolygiadau gan arbenigwyr wedi rhoi sylfaen gref inni fedru datblygu'r agendâu hyn ar gyfer gweddnewid. Mae nifer o'r argymhellion wedi'u gweithredu neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith.

8. Bydd rhaglen Cyfuno yn parhau'n flaenoriaeth, a byddwn yn mynd ati i adeiladu ar lwyddiant y prosiectau peilot er mwyn sicrhau bod grwpiau dan anfantais ym mhob cwr o Gymru yn meithrin sgiliau newydd a hyder drwy ymwneud â diwylliant a threftadaeth.

9. Bydd ein sefydliadau cenedlaethol yn parhau i gael cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru i warchod ein diwylliant ac i ddarparu gwasanaethau ledled y wlad. Yn 2018, bydd y gwaith i ailddatblygu Sain Ffagan yn dwyn ffrwyth. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £7 miliwn i helpu gyda'r gwaith hwnnw. Bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn parhau i arwain ar ddarparu gwasanaethau'n ddigidol a bydd yn dechrau rhoi strategaeth newydd 3 blynedd ar waith erbyn mis Ebrill 2017, gan ddarparu gwasanaethau arloesol a chynhwysol.

10. Mae cydweithio ag amrywiaeth eang o sefydliadau a sectorau eraill yn allweddol er mwyn darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy cynaliadwy mewn hinsawdd economaidd anodd. Byddwn yn herio'r sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol, i fynd ati i gydweithio er mwyn ystyried ffyrdd o ddenu mwy o fuddsoddiad allanol i weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol. Byddwn yn gofyn iddynt hefyd roi arweiniad i'r sector ehangach.

11. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial y sector, rydym wrthi hefyd yn gwerthuso'r opsiynau ar gyfer creu 'Cymru Hanesyddol', gan wneud yn fawr o'r hyn y gall sefydliadau'r amgylchedd hanesyddol ei gyflawni drwy gydweithio, a chan dynnu ar ganfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd gan y Farwnes Randerson yn ddiweddar.

**<u>Y Celfyddydau</u>**

12. Bydd nifer o ymrwymiadau a fydd yn canolbwyntio ar y celfyddydau, a hefyd ymrwymiadau eraill lle bydd gan y celfyddydau ran i'w chwarae, yn ein rhaglen lywodraethu. Yn ogystal â'r blaenoriaethau a amlinellir ar ei gyfer yn fy llythyr Cylch Gwaith blynyddol, bydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r sector celfyddydau rôl allweddol i'w chwarae o ran helpu i weithredu'r mentrau a ganlyn:

- *Y Gronfa Her ar gyfer Chwaraeon a'r Celfyddydau:* bydd y Gronfa hon yn cael ei thargedu at gynyddu buddsoddiad ac at annog mwy o bobl i gymryd rhan. Bydd y Gronfa'n helpu sefydliadau, yn enwedig y rheini sy'n gweithio yn y gymuned ac ar lawr gwlad, drwy roi arian cyfatebol ar gyfer eu prosiectau a bydd yn helpu hefyd i gyfuno creadigrwydd a gwaith i fanteisio ar y cyfryngau digidol. Bydd yn ategu, yn hytrach nag yn disodli, cyllidebau presennol Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru.

- *Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth*: gan weithio mewn partneriaeth â'r Gweinidog Addysg a Chyngor Celfyddydau Cymru, rydym yn awyddus i sefydlu gwaddol ariannol ar gyfer cerddoriaeth. Y nod yw creu

cronfa o £20 miliwn neu fwy. Ymhen amser, gallai ddarparu hyd at £1 filiwn y flwyddyn i helpu pobl ifanc i feithrin eu sgiliau a'u doniau ym maes cerddoriaeth. Gallwn gyrraedd y targed hwn, er y bydd yn gryn her, felly bydd angen denu cyllid o amryfal ffynonellau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Rydym wrthi'n ymgynghori ag amryw o bartneriaid a buddiolwyr posibl er mwyn sicrhau bod gennym gynllun effeithiol ar gyfer creu a chynnal y corff newydd hwn.

- *Y Bond Lles / Presgripsiynau Cymdeithasol*: bydd y mentrau hyn ym maes iechyd y cyhoedd yn buddsoddi mewn grwpiau a gweithgareddau – gan gynnwys sefydliadau celfyddydol a diwylliannol – sy'n helpu pobl nad ydynt yn gwneud unrhyw ymarfer corff, nad ydynt yn bwyta bwyd maethlon ac sy'n yfed gormod o alcohol. Bydd y mentrau hyn yn buddsoddi hefyd mewn sefydliadau o'r fath sy'n helpu i drin iselder ac afiechyd meddwl. Mae mwy a mwy o dystiolaeth bod therapïau celfyddydol a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn gallu bod yn ffordd effeithiol a fforddiadwy o ennyn gwell ymdeimlad o hyder a hunanwerth ymhlith cleifion, ac o leihau symptomau megis gorbryder ac iselder.

13. Byddwn yn parhau i hoelio sylw ar annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau. Yn benodol, mae gan y celfyddydau rôl allweddol i'w chwarae o ran hyrwyddo rhagor o gyfleoedd ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer pobl o gefndiroedd difreintiedig. Bydd gwneud hyn yn ein helpu i ddod yn nes at wireddu'r uchelgais o sicrhau mai Cymru fydd y genedl fwyaf creadigol weithgar yn Ewrop. Ar y cyd â Chyngor y Celfyddydau, byddwn hefyd yn annog y sector i chware rhan weithredol yn ein mentrau yn y dinas-ranbarthau, o gofio bod ganddo hanes llwyddiannus o gyfrannu at gynlluniau adfywio seiliedig ar le. Un o'r blaenoriaethau eraill fydd annog yr awdurdodau lleol i wneud popeth o fewn eu gallu i barhau i gefnogi lleoliadau, prosiectau a gwasanaethau celfyddydol, o gofio'u pwysigrwydd i les cymunedau.

## Cyhoeddi a Llenyddiaeth

14. Mae adolygiad annibynnol o lenyddiaeth a chyhoeddi ar y gweill ar hyn o bryd ac mae'n ystyried y nodau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar gyfer cefnogi'r diwydiant cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru. Mae hefyd yn ystyried a yw'r ddarpariaeth bresennol yn ateb dibenion yr 21ain Ganrif. Disgwylir adroddiad y Panel ym mis Hydref.

### *Cyngor Llyfrau Cymru*

15. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru. Mae dros 70% o grant Llywodraeth Cymru i'r Cyngor Llyfrau yn cael ei sianelu drwy'r cyhoeddwyr er mwyn cefnogi a datblygu diwydiant cyhoeddi llewyrchus a hyfyw. Mae'r Cyngor Llyfrau'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi drwy gynnig gwasanaethau arbenigol y telir amdanynt i'r cyhoeddwyr ym maes golygu, dylunio, gwerthu a marchnata, a thrwy roi cymorth grant ar gyfer rhyw 300 o deitlau bob blwyddyn (200 yn Gymraeg a 100 yn Saesneg) gyda rhyw 100 o'r llyfrau hynny ar gyfer plant.

16. Mae'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ymwybodol iawn bod angen i lyfrau fod o fewn cyrraedd i bob darllenydd, beth bynnag ei gefndir, a bod hynny'n golygu mwy na'r pris yn unig. Mae'r Cyngor Llyfrau wedi gwneud cryn ymdrech dros y blynyddoedd diwethaf i ehangu'r dewis o deitlau mwy masnachol gan roi mwy o bwyslais ar ffuglen boblogaidd, bywgraffiadau a chwaraeon er mwyn cyrraedd rhagor o ddarllenwyr. Bydd yr ymdrech honno'n parhau. Mae'r ffaith bod llyfrau o Gymru ar gael bellach ar ffurf e-lyfrau yn golygu bod cyfleoedd newydd i'r farchnad.

17. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cyfrannu at agenda strategol Llywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y Gymraeg, datblygu economaidd a chynaliadwyedd, llythrennedd a darllen, trechu tlodi a gweithio mewn ardaloedd difreintiedig.

***Llenyddiaeth Cymru***

18. Llenyddiaeth Cymru, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo llenyddiaeth. Mae'n cynrychioli buddiannau awduron Cymru yng Nghymru ac yn rhyngwladol, ac yn annog pobl i fwynhau gwaith ysgrifenedig pobl eraill, ac i greu eu gweithiau llenyddol eu hunain, drwy raglen o weithdai, cyrsiau, gwyliau a chystadlaethau. Ymhlith prif brosiectau Llenyddiaeth Cymru y mae Llyfr y Flwyddyn Cymru, y Bardd Cenedlaethol a'r cynllun cyllido digwyddiadau, Llenorion ar Daith. Mae'r gwasanaethau a gynigir gan Lenyddiaeth Cymru yn cynnwys mentora, bwrsarïau, gwybodaeth a chyngor, ac asesu llawysgrifau'n annibynnol.

***Fforwm y Cyfryngau***

19. Bydd Fforwm Cyfryngau Llywodraeth Cymru yn ystyried nifer o faterion, gan gynnwys yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant cyfryngau yng Nghymru. Mae'r fforwm hwn yn amserol iawn o ystyried yr heriau mawr sy'n wynebu'r cyfryngau yng Nghymru.

**<u>Marchnata a Chyfathrebu</u>**

20. Rydym wedi diweddaru Strategaeth Brand Cymru ac mae gennym bellach ffordd newydd gref a chydlynol o fynd ati i hyrwyddo Cymru. Mae'r ffordd newydd hon o frandio yn canolbwyntio ar hyrwyddo Cymru mewn ffordd integredig, ac mae'n hynod gyfoes ond hefyd yn unigryw ac yn gwbl Gymreig. Yn y blynyddoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r dull hwn o weithredu ar draws pob agwedd ar farchnata Cymru er mwyn sicrhau bod ymgyrchoedd a gweithgareddau'n cael cymaint o effaith â phosibl.

***Marchnata Twristiaeth***

21. Yn 2016, lansiwyd ffordd thematig newydd o hyrwyddo Cymru – sy'n seiliedig ar brif gryfderau cystadleuol Cymru – gyda'r Flwyddyn Antur. Yn dilyn Blwyddyn Antur 2016, bydd Blwyddyn Chwedloniaeth yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018. Y nod yw hoelio ymdrechion ar hyrwyddo Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol, gyda golwg ar ddylanwadu ar wariant ychwanegol o fwy na £300 miliwn y flwyddyn yn economi Cymru.

22. Mae Croeso Cymru yn marchnata ar sawl cyfrwng ac mewn sawl marchnad. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar y farchnad ddomestig ac ar y rhanbarthau allweddol yn Lloegr, gan farchnata ar y teledu, drwy ddeunyddiau printiedig, drwy ddulliau sy'n cyrraedd pobl pan nad ydynt yn eu cartrefi, drwy gynnig profiadau, a thrwy farchnata digidol ac ar y cyfryngau, yn ogystal â gwaith cysylltiadau cyhoeddus. Llwyddodd y dulliau uchod i ddenu dros 4 miliwn i ymweld â visitwales.com yn 2015/16, gan arwain, yn ystod yr un cyfnod, at yr ymateb gorau erioed i yyrchoedd i ddenu pobl i Gymru.

23. Yn rhyngwladol, mae Croeso Cymru yn canolbwyntio ar Weriniaeth Iwerddon, yr Almaen ac UDA – ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n ymweld â'r wefan Almaeneg ers inni lansio rhaglen farchnata gydgysylltiedig yn y farchnad hon yn 2013, gan gynnwys marchnata mewn sinemâu ac ar y teledu.

24. Mae rhaglen Croeso Cymru ar gyfer y diwydiant teithio yn denu swm ychwanegol o £4.5 miliwn y flwyddyn i'r economi ac mae'n tyfu o'r naill flwyddyn i'r llall wrth inni weld mwy a mwy o ddiddordeb oddi wrth restr darged o'r prif gwmnïau teithio. Unwaith eto, mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar brif farchnadoedd rhyngwladol Cymru ond mae hefyd yn cynnwys marchnadoedd a thiriogaethau eraill – gan gynnwys marchnadoedd sy'n dechrau dod i'r amlwg, megis Japan a Tsiena.

25. Mae gwaith marchnata Croeso Cymru yn ymateb hefyd i ddigwyddiadau mawr ac i gyfleoedd ar gyfer y farchnad wrth iddynt godi. Yn ddiweddar, cynhaliodd ymgyrch gwerth £500,000 i fanteisio i'r eithaf ar lwyddiant Cymru yn Rowndiau Terfynol Ewro 2016. Roedd yr ymgyrch honno'n cynnwys hysbysebu ar y teledu yn yr Almaen yn ogystal â hysbysebu mewn print ac ar y cyfryngau digidol yn Ffrainc ac yma yn y DU.

26. Cytunwyd yn ddiweddar ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda VisitBritain. Cynhaliodd Croeso Cymru sioe deithiol yn ddiweddar i hyrwyddo Cymru, gan ymweld â phedair dinas Ewropeaidd allweddol mewn partneriaeth â'r ymgyrch GREAT.

***Marchnata Busnes***

27. Ers pum mlynedd bellach, mae Marchnata Busnes wedi gweithio mewn partneriaeth â'r timau sector sy'n cael blaenoriaeth, gyda'r Tîm Masnach a Buddsoddi, a'r Tîm Menter a Gwybodaeth Busnes, i godi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb yng Nghymru fel cyrchfan lle gall busnesau ddechrau, tyfu neu sefydlu.

28. Mae Marchnata Busnes wedi mynd ati hefyd i hyrwyddo gwasanaeth Busnes Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog mwy i fanteisio ar y gwasanaethau a'r cymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid. Cymru a'r DU yw'r marchnadoedd allweddol, ond mae gwaith yn cael ei wneud mewn marchnadoedd eraill dramor yng nghyswllt teithiau a digwyddiadau masnach.

29. Ar gyfer 2016, rydym yn cydweithio â'r Panel Cyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol i drafod sut i sicrhau statws uwch i Gymru fel lle i ddechrau busnes a hefyd sut i hyrwyddo diwylliant o entrepreneuriaeth yng Nghymru. Rydym wedi rhoi cryn sylw i Ardaloedd Menter.

30. Drwy ymgyrch Just Ask Wales, a lansiwyd yn 2014, rydym wedi targedu buddsoddiad uniongyrchol o dramor sydd â lleoliadau yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr, gyda'r nod o greu diddordeb a all, dros amser, gael ei droi'n brosiectau. Yn ystod blwyddyn gyntaf yr ymgyrch, gwelwyd cynnydd o 10 y cant yn nifer yr ymholiadau newydd oddi wrth fuddsoddwyr. Ar gyfer 2016, rydym yn gweithio ar gyflwyno colofn Busnes brand Cymru, gan sicrhau cysondeb â gweithgareddau yn y sector twristiaeth.

31. Rydym wedi lansio ymgyrch fuddsoddi lefel uchel ar gyfer marchnadoedd tramor er mwyn hyrwyddo statws Cymru fel cyrchfan i fusnesau.